

GRŴP LLYWIO BUDDSODDI RHANBARTHOL CYMRU (RIWSG M04/19)

Y diweddaraŵ am waith yr Is-grwpiau

Diben

Rhoi diweddariad i Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru ar y materion allweddol a ystyriwyd gan y pedwar is-grŵp sydd newydd eu sefydlu, a materion i'w hystyried yng nghyfarfodydd y grwpiau hyn yn y dyfodol.

Cefndir

Cytunodd Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru ym mis Mai i sefydlu pedwar is-grŵp i helpu i lywio'r broses o feddwl ac i gynhyrchu syniadau ynghylch materion penodol, a hefyd i gefnogi'r gwaith manwl sy'n angenrheidiol er mwyn paratoi dogfen ymgynghori a symud ymlaen â gwaith datblygu dilynol yn ystod 2020.

Ym mis Gorffennaf, rhoddwyd diweddariad i'r Grŵp Llywio ar y broses hunan-enwebu i lenwi'r is-grwpiau ag arbenigwyr perthnasol o wahanol sectorau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf yr is-grwpiau ym mis Awst (ac eithrio cyfarfod yr is-grŵp Trawsffiniol / Rhyngwladol, a gynhaliwyd yn hwyr ym mis Medi); ers hynny, maent wedi bod yn cyfarfod oddeutu bob 3-4 wythnos.

Mae ysgrifenyddiaeth pob is-grŵp yn paratoi nodiadau a phwyntiau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfodydd. Lle y bo'n briodol, rhennir papurau a datblygiadau rhwng yr is-grwpiau er mwyn sicrhau datblygiad di-dor y fframwaith buddsoddi cyffredinol. Mae crynodebau o'r prif faterion a drafodwyd ym mhob cyfarfod is-grŵp wedi cael eu cydgysylltu er mwyn rhoi adroddiad cynnydd i gyfarfodydd y Grŵp Llywio. Mae'r crynodebau hyn wedi'u nodi yn yr Atodiadau amgaeedig fel a ganlyn:

Atodiad A: Diweddariad yr Is-grŵp Fframwaith Cenedlaethol

Atodiad B: Diweddariad yr Is-grŵp Gweithredu

Atodiad C: Diweddariad yr Is-grŵp Ymchwil a Monitro

Atodiad D: Diweddariad yr Is-grŵp Trawsffiniol / Rhyngwladol

Mae llawer o gynnwys a thrafodaethau'r is-grwpiau hyd yma yn adlewyrchu'r camau cynharaf o ran datblygu syniadau ar amrywiaeth o bynciau. Mae materion allweddol yn cael eu huwchgysylltu i Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru yn ôl yr angen, a bydd y rhain yn helpu i gynllunio'r ddogfen ymgynghori a fydd yn cael ei lansio yn gynnar yn 2020.

DIWEDDARIAD YR IS-GRŴP FFRAMWAITH CENEDLAETHOL

Mae'r grŵp yn gyfrifol am ddatblygu cynllun ar gyfer Fframwaith Cenedlaethol gweithredol yn ymwneud â buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar y cyd â gweithgorau eraill, gan ystyried integreiddio a chyfatebolrwydd â systemau cyllido eraill, asesu effeithiau yn erbyn y fframwaith polisi datblygol, ac ystyried arloesi cymdeithasol; cydraddoldeb; ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol; a gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r grŵp wedi cyfarfod deirgwaith ers mis Awst, ac mae'r canlynol yn crynhoi'r materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd hyn.

Egwyddorion Cynllunio

Trwy ddefnyddio adborth gan Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (RIWSG), rydym wedi llunio egwyddorion cynllunio'n ymwneud â'r pum ffordd o weithio a ddisgrifir yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy¹ a'r canllaw statudol cysylltiedig².

Roedd adborth gan rai o aelodau'r is-grŵp yn canolbwyntio ar yr angen i gynnwys ac ystyried mwy ar gydraddoldeb yn benodol y tu hwnt i ffurf bresennol y ddeddf, yn cynnwys y posibilrwydd o ychwanegu'r gair at y maes blaenoriaeth 'Cymunedau Iachach a Mwy Cynaliadwy'. Gofynnwyd cwestiynau ychwanegol ynghylch y cyfle i newid nifer y meysydd blaenoriaeth dan sylw o fewn yr ymgynghoriad.

Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol

Er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer datblygiad y sylfaen dystiolaeth sy'n ategu penderfyniadau polisi a'r ymgynghoriad, comisiynwyd dadansoddiad economaidd-gymdeithasol gyda chyflwyniad yn nodi meysydd y dylid eu hystyried, yn cynnwys cynhyrchiant, gwerth ychwanegol gros (GVA), sgiliau a data amrywiol. Trafododd yr is-grŵp y dadansoddiad hwn, gan grybwyll amrywiaeth o bwyntiau ychwanegol yn cynnwys cwestiynu'r defnydd o GVA fesul pen yn hytrach na GVA fesul awr, a chan ddadlau na ddylid canolbwyntio'n ormodol ar GVA ar draul ffactorau eraill sy'n pennu llesiant, dadansoddi cyfraddau cyfnewid, cymharu oddi mewn i Ranbarthau Cymru a chyda gweddill yr UE/DU, yr angen i gymell swyddi o ansawdd gwell, Demograffeg Dinasoedd, dangosyddion amddifadedd, elfennau gofodol a'r angen i sicrhau elfen gymdeithasol gref ar gyfer unrhyw ymyriad neu fesur.

Paratoi at y dyfodol

Ceir dogfennau sy'n nodi polisiâu presennol Llywodraeth Cymru, ond tynnodd rhai mynychwyr sylw at ba mor agos yw cyfnod gweithredu'r polisiâu hyn at etholiad nesaf Cynulliad Cymru a pha effaith a gaiff hyn ar y meysydd blaenoriaeth.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/section/5>

² <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/spsf-2-individual-role-public-bodies.pdf>

Bu'r grŵp yn trafod y pedwar maes blaenoriaeth, gan farnu eu bod yn ddigon eang i gwmpasu'r holl syniadau gwleidyddol yng Nghymru. Trwy seilio'r fframwaith ar y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, dylai'r fframwaith fod yn berthnasol i ba bynnag lywodraeth a geir ar ôl yr etholiad nesaf.

Blaenoriaethau a Chanlyniadau Cenedlaethol


O gofio cwmpas pellgyrhaeddol y pedwar maes blaenoriaeth, mae'r ystyriaethau hyd yn hyn wedi eu hysgogi gan yr angen i leihau cwmpas yr hyn a gaiff ei ystyried er mwyn cael ffocws culach ar amcanion strategol a mesuradwy a all gyfrannu orau at y canlyniadau a'i gwneud yn bosibl i gynllunio rhaglenni effeithiol.

Mae'r papurau hyd yn hyn wedi ceisio cychwyn ar sail y nodau llesiant hyn a defnyddio'r pedwar maes blaenoriaeth i bennu amcanion posibl a allai lywio'r rhaglenni gweithredu penodol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

Gan adlewyrchu'r teimlad o 'syrffed at strategaethau' y soniodd nifer o'r mynychwyr amdano, ein man cychwyn ni fu polisïau presennol Llywodraeth Cymru, ac yna'r safbwyntiau y daethpwyd iddynt yn yr is-grŵp hwn ac a lywiwyd wedyn gan dystiolaeth a gasglwyd a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Rydym yn bwriadu mapio polisïau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer pob maes blaenoriaeth, ond mae'r gwaith hwn yn dal i fod ar y gweill a chaiff ei lywio gan y mynychwyr.

Yn broblemus ddigon, nid oedd y papurau a roddwyd gerbron yn cynnwys yr eglurder uchod. Nid oedd gan y term 'canlyniad' ddiffiniad manwl ac uniongyrchol y gellid bod wedi ei gymhwyso hefyd i'r pedwar maes blaenoriaeth, yr amcanion yr oeddem yn ceisio eu pennu, neu haen strategol ychwanegol ar wahân. Mae'r pedwar maes blaenoriaeth yn eang ac maent wedi eu mynegi mewn modd y gellid eu diffinio naill ai fel canlyniadau neu amcanion, heb i hynny gael ei wneud yn y Datganiad Llafar na chan y Grŵp Llywio (a aeth ati, ar un adeg, i dynnu sylw at y posibilrwydd y gellid eu diffinio felly, heb ymrwymo i wneud hynny).

Yn wyneb diffiniad annigonol o'r fath, trafododd y mynychwyr ar ba lefel y dylid pennu canlyniadau posibl, a pha un ai'r Fframwaith Cenedlaethol a ddylai eu pennu, gan awgrymu yn hytrach y gellid eu datblygu ar lefel ranbarthol. Grahame Guilford a leisiodd hyn gryfaf. Mae wedi llunio sawl papur yn ystyried y mater ac yn dadlau dros gael golwg ar wahân ar ddatblygu economaidd seiliedig ar ganlyniadau, yn cynnwys y graffigyn canlynol:



Mae hefyd wedi cynnig diffiniad newydd o ganlyniadau er mwyn arwain trafodaethau wrth symud ymlaen yn seiliedig ar yr uchod, gan awgrymu bod angen iddynt fodloni nifer o brofion, yn cynnwys eu diffinio'n gyfan gwbl mewn cyd-destun rhanbarthol.

Mae modd cysoni'r argymhellion yma os cânt eu hystyried yng nghyd-destun yr amcanion, ond mae hyn yn wahanol i gyngor blaenorol y grŵp hwn ynghylch defnyddio'r Ddeddf i bennu canlyniadau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan mai bwriad y Fframwaith Cenedlaethol o'r cychwyn oedd cael rhai polisïau sy'n gweithio ar lefel Cymru gyfan – rhywbeth sy'n groes i'r diffiniad o gael canlyniadau sy'n gweithio'n gyfan gwbl mewn cyd-destun rhanbarthol.

Wrth fyfyrto ar yr uchod, dywedodd nifer o unigolion fod angen gwell eglurder. Ar sail hyn, hoffem i'r grŵp ddarparu arweiniad, **gan drafod a ddylid defnyddio diffiniad arfaethedig Grahame ynteu a ddylid ailddatgan mai'r Ddeddf sy'n cynnwys y canlyniadau y dylem eu defnyddio wrth symud ymlaen.**

Ar ôl cael yr eglurder hwn, byddwn yn dosbarthu papur yn nodi'r diffiniad o ganlyniadau y byddwn wedi penderfynu arno, ac yn dechrau ar y broses o bennu pa amcanion y dylid eu cadw ar lefel genedlaethol a lefel rhanbarthol.

Rhannu Cyfrifoldebau

Hefyd, bu'r grŵp yn trafod yr angen am gydbwysedd priodol rhwng darpariaeth a chyfrifoldebau cenedlaethol a rhanbarthol. Mynegwyd rhan helaeth o'r drafodaeth hon yng nghyd-destun y drafodaeth uchod ar ganlyniadau, a thynnwyd sylw at yr angen am gydgyfraniad cenedlaethol a rhanbarthol at weithgareddau wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol ymyriadau.

Cynigiodd Grahame Iunio matrices Cynllunio a Chyflawni yn nodi beth fyddai i'w gael ar bob lefel, gyda'r nod o ddarparu eglurder ynghylch beth sy'n ddisgwyliedig o bob rhanddeiliad ar bob lefel. Bydd y papur hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach ac yn cael ei rannu gyda'r is-grŵp i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. Bydd y gwaith yn cael ei lywio'n helaeth gan farn yr is-grwpiau eraill.

Ymgynghori

Mae grŵp y Fframwaith Cenedlaethol yn gyfrifol am helpu i lunio'r ddogfen ymgynghori ddrafft. Trafodwyd cyflwyniad yn nodi'r broses yn holl Is-grwpiau'r Fframwaith Cenedlaethol a'r Is-grwpiau Gweithredu, a bydd yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfodydd Rhyngwladoli/Trawsffiniol a Monitro a Gwerthuso nesaf.

Canolbwyntiodd adborth allweddol ar y dewis rhwng cynnig cyfres o opsiynau posibl lle gall y cyhoedd nodi dewis rhagweithiol mewn modd ystyrlon yn erbyn opsiwn mwy rhagnodol a gwirioneddol (sef yr opsiwn a argymhellir) sy'n seiliedig ar waith yr is-grwpiau hyd yn hyn. Tra byddai'r cyntaf yn cyd-fynd yn well ag ysbryd cyd-gynhyrchu ystyrlon, golyga'r amserlenni mai un ymgynghoriad yn unig y gallwn ei gynnig i roi pethau ar waith cyn y terfyn amser ym mis Ionawr 2021, a cheir cryn bryderon y gallai dull llai penodol roi'r dasg o gyflawni'r prosiect yn y fantol.

Trafodwyd y dewis rhwng y ddau uchod yn yr is-grwpiau. Roedd y rhan fwyaf yn tueddu i fod o blaid y dull a argymhellir. **Byddem yn croesawu arweiniad y Grŵp Llywio ynglŷn â pha opsiwn i'w ddewis.**

Ymhellach, bu'r grwpiau'n trafod y broses ymgynghori, gan bwysleisio'r dymuniad i ymgysylltu â buddiolwyr newydd posibl. Mae eu hadborth wedi cael ei drosglwyddo i'n Pennaeth Gweithio mewn Partneriaeth, sydd wrthi'n llunio Cynllun Ymgysylltu ar gyfer Ymgynghori a gaiff ei rannu gyda phob un o'r is-grwpiau yn y dyfodol.

Camau nesaf

Bydd ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 21 Hydref a bydd yn cynnwys papur ar ddyfodol themâu trawsbynciol.

Gan fyfyrio ar y cynnydd ym maint is-grŵp y Fframwaith Cenedlaethol a'r diddordeb cynyddol sydd gan ambell fynychwr mewn meysydd blaenoriaeth arbennig, mae nifer o grwpiau llai wedi eu sefydlu ar gyfer pob maes blaenoriaeth. Gall pobl ar wahân i aelodau'r grŵp fod yn rhan o'r rhain. Hefyd, cynigiodd nifer o wirfoddolwyr helpu gyda'r gwaith o lunio'r ddogfen ymgynghori.

**TESTUN DRAFFT Y GRŴP LLYWIO BUDDSODDI RHANBARTHOL YNG
NGHYMRU AR GYFER SYLWADAU.**

Sefydlwyd yr is-grŵp Gweithredu a Chyflawni ddiwedd mis Gorffennaf ac mae wedi cyfarfod dair gwaith hyd yma, unwaith ym mis Awst a dwywaith ym mis Medi.

Mae gan y grŵp hwn gylch gwaith eang. Mae'n gyfrifol am ddatblygu trefniadau i sicrhau bod y fframwaith buddsoddi cenedlaethol newydd a chynlluniau buddsoddi rhanbarthol yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Bydd yn arwain y gwaith o ddatblygu rheolau buddsoddi cyffredin i ddarparu sefyllfa gyfartal a chyson ar draws y rhanbarthau. Mae'r meysydd pwnc eraill yn cynnwys fframwaith sicrwydd cenedlaethol, systemau TG a hygyrchedd, mecanweithiau cydgysylltu rhwng y lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, arfer gorau o ran datblygu lleol dan arweiniad y gymuned a'r defnydd o offerynnau ariannol.

Mae'r grŵp wedi ystyried yr holl bynciau hyn a cheir crynodeb o'r sylwadau a'r safbwyntiau a fynegwyd isod. Mae'r rhain yn ffurfiannol o hyd, o gofio bod trafodaethau'r is-grŵp yn y cyfnod cynnar.

Mecanweithiau cyflawni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

Roedd Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru (18 Gorffennaf 2019) ar 'Dyfodol Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit' yn nodi bod y Cabinet wedi cytuno bod angen sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng cyflawni'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol o ran dyfodol buddsoddi rhanbarthol. Roedd yn nodi hefyd ein bod wedi ymrwymo i weld mwy o gynllunio a phenderfyniadau yn ein rhanbarthau.

Mae is-grŵp y Fframwaith Cenedlaethol yn ystyried ar ba lefel y gall mathau penodol o fuddsoddi ddigwydd o fewn y model, h.y. ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae'r grŵp Gweithredu a Chyflawni yn ystyried sut y bydd modelau yn gweithio, hynny yw, beth yw'r ffordd orau o gyflawni buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol i ddinasyddion Cymru, ac ar ba lefel.

Mae synergedd rhwng y ddau grŵp hyn ar y mater hwn ac rydym yn bwriadu hwyluso cysylltiad agosach rhyngddynt.

Dyma faes datblygu cymhleth sy'n dibynnu ar waith arall sy'n mynd rhagddo; er enghraifft, adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, cryfhau llywodraeth leol (e.e. Cyd-bwyllgorau Corfforaethol) a datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol.

Mae'n bwysig felly fod unrhyw gynlluniau ynghylch modelau cyflawni yn parhau'n ddigon hyblyg i ymaddasu ac ymateb i ddatblygiadau yn y meysydd hyn ac unrhyw feysydd dibynnol eraill a nodwyd.

Mae Graham Guilford wedi cyflwyno papur i'r is-grŵp er mwyn helpu i gychwyn trafodaethau ynghylch modelau cyflawni posibl mewn strwythur datblygu economaidd yn y dyfodol yng Nghymru. Mae'r papur yn rhoi enghreifftiau ymarferol o'r ffordd y byddai modelau posibl yn gweithio, gan edrych yn benodol ar y cysylltiadau rhwng y rhanddeiliaid allweddol, prosesau gwneud penderfyniadau a'r prif gyfrifoldebau. Er mwyn cadw pethau'n weddol syml ar hyn o bryd, dim ond y gwahaniaeth rhwng y lefel genedlaethol a'r lefel ranbarthol a ystyriwyd yn y papur.

Yn y papur, trafodwyd dau fodel posibl o ran darparu cyllid, sef model cleient / contractwr / is-gontractwr a model cydgmwni.

Yn y model cyntaf, ac yng nghyd-destun system datblygu economaidd yn y dyfodol yng Nghymru, mae sawl ffordd o weithredu hyn. Ar un lefel, gallai Llywodraeth Cymru fabwysiadu rôl y cleient a'r prif gontractwr a phenodi endidau cyfreithiol rhanbarthol yn isgontractwyr ar gyfer gweithgareddau sy'n benodol i'r rhanbarth, a gellid penodi partneriaid cyflawni eraill i ddarparu rhaglenni ar gyfer Cymru gyfan.

Fel arall, gallai Llywodraeth Cymru gadw rôl y cleient yn unig. Yn yr achos hwn, byddai'n diffinio ei phrif flaenoriaethau ym mhob rhanbarth, ynghyd â rhai nodweddion allweddol y mae'n rhaid iddynt fod yn gyffredin, gan roi rôl y prif gontractwr ym mhob rhanbarth i endid cyfreithiol rhanbarthol cymeradwy. Byddai'r cleient yn parhau i reoli adolygiadau Gateway ond, os bydd y prif gontractwr yn mynd drwy'r rhain, bydd yn mynd yn gyfrifol am ddiffinio'r rhaglen gyflawni ranbarthol (blaenoriaethau cenedlaethol sydd wedi'u cyfleu mewn cyd-destun rhanbarthol), creu'r gallu i gyflawni, dyrannu cyllid, monitro'r broses gyflawni ac adolygu'r rhaglen, a bydd y rhain i gyd, wrth gwrs, yn destun adolygiadau Gateway dan reolaeth y cleient os yw'n briodol.

Mae'r model cydgmwni yn golygu cwmni daliannol canolog eithaf bach a bod mwy o reolaeth weithredol yn cael ei rhoi o'r canol. Mae'r cwmni daliannol yn arfer rheolaeth yn bennaf drwy ddyrannu cyllid a phennu'r meini prawf o ran yr elw ar fuddsoddiadau. Hefyd, gellid ystyried y model hwn yn fodel lle mae cyflawni gweithredol yn cael ei reoli os oes angen hynny – yn lleol – ond lle mae gan y cwmni daliannol lefel uchel o ddisgresiwn o ran faint o reolaeth ganolog y mae'n ei harfer a'r meini prawf y mae'n eu defnyddio i arfer y rheolaeth honno. Hefyd, nid oes gorfodaeth arno i fabwysiadu'r un prosesau rheoli ar gyfer pob cwmni gweithredol na'u defnyddio dros yr un cyfnodau.

Mae'r papur hefyd yn cynnig elfennau generig posibl y mae'n rhaid i unrhyw fodel cyflawni eu cynnwys, sef endidau cyfreithiol rhanbarthol cymwys, mecanweithiau blaenoriaethu, cyflawni'r 'rhaglen a gytunwyd', cynllunio'r broses gyflawni a chyllido, cyflawni a monitro ac, yn olaf, sicrwydd.

Gan fod hwn yn faes mor gymhleth, mae safbwyntiau yn cael eu ffurfio o hyd. Dyma'r prif sylwadau eraill a gyflwynwyd gan y grŵp:

O ran cyflawni buddsoddi rhanbarthol, mae'n ymddangos bod opsiynau o ran ystyried yr hyn y mae angen ei gyflawni ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol. Fodd bynnag, mae angen ystyried pa faterion y mae angen rhoi sylw iddynt a pha newid y mae ei angen er mwyn ystyried y model cyflawni mwyaf priodol. Hefyd, bydd

angen i'r modelau fod yn gallu ymateb i newid ac yn hyblyg. Mae'n bwysig peidio â gosod modelau nad ydynt yn addas a dylid ystyried dull gweithredu ar lawr gwlad i sicrhau bod pobl yn parhau i gael eu cynnwys.

Mae angen cydnabod y bydd amrywiaeth ar draws y rhanbarthau ac y bydd angen hyblygrwydd felly mewn perthynas â'r dull gweithredu o ran cynlluniau rhanbarthol a'r blaenoriaethau a nodir mewn unrhyw gynlluniau.

Darparwyd cymorth o ran cyflogadwyedd, sy'n enghraifft o gyflawni'n rhanbarthol. Caiff ei weithredu ar lefel leol er mwyn sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu diwallu. Dylid ystyried cyflawni arbenigol ochr yn ochr â chyflawni rhanbarthol neu genedlaethol, ond mae angen sicrhau nad oes gormod o raniadau. Nid ymddengys fod un model sy'n addas i bopeth.

Awgrymodd yr aelodau fod y ddwy Raglen Cronfeydd Strwythurol ddiwethaf wedi bod yn fwy strategol a'u bod o bosibl wedi colli rhywfaint o'r cysylltiad a fodolai pan roedd partneriaethau lleol ar waith, felly gall gweithgarwch mewn ardaloedd lleol fod yn llai gweladwy.

Yn y dyfodol, dylid ystyried ffyrdd gwahanol o wneud pethau, yn ogystal â sut y gellir sicrhau bod cyllid rhanbarthol / cenedlaethol ar gael i bobl leol. Mae angen ystyried sut y gall grwpiau bach gael gafael ar gyllid i gyflawni'n lleol.

Os bydd rhywfaint o gyllid yn cael ei ddyrannu'n rhanbarthol, bydd yn angenrheidiol bod gan y cyrff perthnasol statws endid cyfreithiol a bydd angen strwythurau llywodraethu mewn perthynas â'r rhain.

Mae posibilrwydd o gystadleuaeth rhwng rhanbarthau ac o fewn ardaloedd rhanbarthol a bydd angen rheoli tensiynau o'r fath. Dylai fod proses effeithiol mewn perthynas â hyn i alluogi a chefnogi cydweithio ar draws y rhanbarthau. Mae nifer o gysylltiadau presennol ar waith sy'n allweddol i'r dulliau gweithredu presennol o ran yr holl benderfyniadau economaidd rhanbarthol. Dylid parhau â'r mewnbwn presennol gan randdeiliaid.

Hefyd, dywedwyd y dylem sicrhau bod trefniadau o ran cyflawni yn y dyfodol yn gydnaws ag ymrwymiad y Gweinidog i ddatblygu cydbwyllgorau corfforaethol, a'u bod yn gydnaws â strwythurau a thimau rhanbarthol presennol.

Gwnaed y sylwadau canlynol am faterion penodol ynghylch cyflawni:

Mae angen dull gweithredu cyson o ran sut y gwneir penderfyniadau ynghylch cyllido ar draws ardaloedd rhanbarthol ac mae angen i'r model cyflawni cyffredinol fod yn effeithlon ac yn ystwyth, ac mae'n rhaid bod modd ei deilwra yn ôl dimensiynau rhanbarthol penodol. Dylid cytuno ar set gyffredin o reolau/egwyddorion o'r cychwyn a'u harfer yn gyson.

Hefyd, dylai fod cymesuredd o ran y prosesau a gynlluniwyd i fod yn sail i benderfyniadau a dylid cydnabod nad oes angen yr un dull gweithredu mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau.

Model arfer gorau o ran datblygu lleol dan arweiniad y gymuned

Mae'r gwaith hwn yn y cyfnod cynnar iawn o ran ei ddatblygu ac mae'r aelodau wedi gwneud y prif sylwadau canlynol ynghylch model ar gyfer Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned (CLLD).

Mae'n rhaid inni ddiffinio'n glir y canlyniadau rydym yn eu ceisio drwy weithgareddau CLLD yn y dyfodol. Dylai cymorth yn y dyfodol geisio cyflawni twf economaidd, yn ogystal ag ystyried blaenoriaethau eraill, megis blaenoriaethau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol, cydlyniant, ac ati.

Dylid defnyddio'r canlyniadau a fynnir i benderfynu ar y model cyflawni mwyaf priodol.

Os na fydd y canlyniad(au) arfaethedig yn cael eu cyflawni, mae'n rhaid inni fod yn gallu esbonio nad yw hyn yn golygu bod ein hymyrraeth wedi methu. Mae angen inni gyfaddef bod dysgu gwersi o brosiectau aflwyddiannus, mewn gwirionedd, yn ganlyniad rydym yn barod i'w dderbyn.

Yn dilyn hyn, dywedodd yr aelodau y dylid cydnabod, ar lefel gymunedol, fod ymyriadau lefel isel yn aml yn arwain at gryn elw. Hefyd, mae angen deall nad yw pwysigrwydd y canlyniad bob amser yn gymesur â faint o arian a ddarparwyd.

Mae'n rhaid inni fod yn barod i dderbyn risg wrth ddatblygu dull gweithredu ystyrllon a dealladwy o ran ein prosesau yn y dyfodol. Mae hyrwyddo arloesi sy'n deillio o bobl yn eu cymunedau yn rhan bwysig o fodel CLLD ar gyfer y dyfodol.

Mae'r aelodau wedi dweud bod CLLD yn mynd y tu hwnt i LEADER. Mae'n rhaid cydnabod nad yw LEADER fel rhaglen o weithgarwch, CLLD a datblygu economaidd lleol yr un peth ac y bydd gan bob cymuned ofynion gwahanol. Dylid mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd i benderfynu ar yr hyn y mae angen canolbwyntio arno ar unrhyw lefel o CLLD.

Fodd bynnag, mae angen ystyried yr hyn sydd wedi gweithio'n dda dan LEADER a modelau rhanbarthol eraill, er enghraifft yn yr Alban.

Mae angen sgiliau a gallu mewn cymunedau er mwyn sicrhau cyfranogiad ac mae perygl y gellid colli gallu a ddatblygwyd mewn Grwpiau Gweithredu Lleol.

Gwnaed nifer o sylwadau ynghylch trefniadau gweithredu manylach o ran CLLD. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am ddiwydrwydd dyladwy hyblyg a chymesur, yn ogystal ag asesu risg, rhagdaliadau ar gyfer ymgeiswyr yn y trydydd sector, trefniadau galwadau agored a chlustnodi cyllid ar gyfer gweithgarwch CLLD.

Nid yw'r cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad wedi'u llunio eto ond gallent geisio adeiladu ar y sylwadau hyn a cheisio barn ehangach gan randdeiliaid ynghylch yr anghenion a'r cyfleoedd o ran CLLD mewn rhaglen fuddsoddi i Gymru yn y dyfodol, dulliau gweithredu o ran cyllido a'r arfer gorau y mae angen ei ddatblygu, yn enwedig mewn perthynas ag arloesi.

Fframwaith sicrwydd cenedlaethol

Mae'r aelodau wedi gwneud y prif bwyntiau canlynol ynghylch fframwaith sicrwydd cenedlaethol ar gyfer y dyfodol.

Yn gyffredinol, byddai'r aelodau yn croesawu trefniadau sicrwydd sy'n fwy cymesur ac yn fwy seiliedig ar risg, yn gynharach yng nghylch oes y prosiect, ac sy'n lleihau achosion o ddyblygu ymdrechion ac yn golygu dull partneriaeth yn hytrach na dull archwilio.

Gellid ystyried proses adolygu sicrwydd gronnol, lle mae llywodraethu da ar waith cyn bod cyllid yn cael ei roi a, phan gyrrhaeddir y lefel sicrwydd angenrheidiol, na ddefnyddir y gwiriadau na'r dulliau cadw cydbwysedd mwyach.

Dylai fod rhywfaint o hunanwerthuso beirniadol mewn perthynas â'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad yw wedi gweithio'n dda o ran y trefniadau presennol, gan fod y rhain wedi golygu y rhoddwyd llawer o adnoddau i weinyddu'r rhaglen yn hytrach na'i chyflawni.

Yn bwysig, pwysleisiwyd y dylid cynllunio'r fframwaith sicrwydd ar ôl penderfynu beth fydd yn cael ei gyflawni a sut, yn hytrach na bod hyn yn weithgaredd datblygiadol ymlaen llaw.

Nid yw'r cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad wedi'u llunio eto ond gallent geisio adeiladu ar y syniadau hyn a cheisio barn ehangach gan randdeiliaid ynghylch cyfleoedd i ystyried yr hyn sy'n gweithio'n dda yn y dull gweithredu presennol a'r hyn y dylid ei gadw, yn ogystal â'r hyn y gellid ei wella ymhellach a/neu ei gyflwyno i gefnogi dull gweithredu rhanbarthol yng Nghymru.

Systemau TG

Gwnaed gwaith i ystyried y cymwysiadau hynny sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar draws Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag asesu eu haddasrwydd ar gyfer trefniadau olynol o ran buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru.

Canlyniad y gwaith hwn oedd mai'r system fwyaf addas ar gyfer anghenion y dyfodol ar hyn o bryd yw System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS) Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, ond cydnabyddir ei bod yn bwysig cadw barn ehangach ynghylch hyn.

Mae PPIMS wedi cael ei defnyddio yn ystod nifer o gylchoedd cyllido'r Undeb Ewropeaidd, gan ddarparu dull rheoli grantiau o'r dechrau i'r diwedd a swyddogaeth archwilio sy'n cydymffurfio'n llawn. Mae'r porth allanol (WEFO ar-lein) yn darparu'r mecanwaith i gwsmeriaid allanol gyflwyno gwybodaeth, sy'n cael ei bwydo i'r system drwy Borth y Llywodraeth, gan fodloni Rheoliadau'r UE ynghylch e-gydllynt. Mae'r cymhwysiad yn rheoli prosiectau cymhleth sydd â nifer o fuddiolwyr a llinynnau arian cyfatebol, ac mae'n caniatáu ar gyfer gwybodaeth gynhwysfawr am gyllid ac allbynnau ar draws yr holl raglenni a phrosiectau a reolir oddi mewn iddo.

Gwnaeth yr aelodau y sylwadau canlynol am roi unrhyw TG ar waith yn y dyfodol.

Wrth ddatblygu ein gofynion newydd, dylid ystyried creu grŵp ffocws, gan alw ar groestoriad o randdeiliaid (mewnol ac allanol) i roi barn gynhwysfawr am brofiad defnyddwyr ar hyn o bryd.

Dylai mynediad i'r system fod yn syml, a dylid sicrhau bod y dull llywio mor syml â phosibl a bod iaith glir yn cael ei defnyddio drwyddi. Mae angen sicrhau bod cofnodi data a golygu data yn syml ac mae'n rhaid rhoi sylw i'r broses o lanlwytho swmp o wybodaeth yn y dyfodol.

Dylid bod yn gallu adalw gwybodaeth o'r datrysiad i gynorthwyo ag anghenion monitro ac adroddiadau rheoli mewn modd effeithlon ac effeithiol. Nodwyd bod cyfres o adroddiadau sy'n cyflwyno gwybodaeth a gedwir yn y datrysiad, yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth mewn modd cyson, yn nodweddion allweddol sydd i'w cyflawni.

Dylid ystyried anghenion defnyddwyr a sicrhau bod cyfres gynhwysfawr o gymorth ar gael. Mae angen i ddeunydd hyfforddiant fod yn addas i'r diben a chael ei ddarparu yn y fformatau mwyaf effeithiol. Mae angen i gymorth o ran defnyddio'r cymhwysiad fod ar gael yn rhwydd ac yn reddfol, ac mae angen rhoi ystyriaeth i'r dewisiadau technegol diweddaraf er mwyn darparu deunydd cymorth o'r fath, yn ogystal â digon o adnoddau i ddatrys methiannau'r system.

Hefyd, teimlai'r aelodau y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ceisio cynnig datrysiad rheoli grantiau / cyllid corfforaethol, sy'n rheoli'r holl gymorth ariannol a ddarperir drwy Lywodraeth Cymru. Byddai darparu gwybodaeth graidd i gwsmeriaid 'unwaith' ar draws y sefydliad yn cynnig arbedion effeithlonrwydd ac yn gwella gwelededd yn fawr. Roedd yr aelodau o'r farn bod mynediad at adroddiadau rheoli cywir ac amserol, yn ogystal â chyflwyno darlun clir o'r holl gymorth sy'n cael ei roi i gwsmer, yn nodweddion hanfodol o ran datrysiad ar gyfer y dyfodol.

Dylid ystyried cyfyngiadau o ran cymwysiaid TG eraill a ddefnyddir y tu allan i Lywodraeth Cymru a, lle bo'n bosibl, dileu unrhyw rwystrau i gysylltu data, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch.

Rheolau buddsoddi ar y cyd

Cyflwynwyd y ddau ddatganiad allweddol i'r aelodau ynghylch datblygu rheolau i weinyddu darpariaeth yn y dyfodol o ran buddsoddi rhanbarthol, sef:-

- Bydd ein buddsoddiadau yn seiliedig ar set gyffredin o reolau a fydd mor syml â phosibl ac yn adlewyrchu safonau a ddatblygwyd ac a bennwyd yng Nghymru, gan osgoi creu rheolau newydd ar gyfer cronfeydd newydd yn unig.
- Byddwn yn sicrhau bod prosesau cryfach ond symlach yn cael eu rhoi ar waith o ran arfarnu, monitro a gwerthuso prosiectau, er mwyn gwella'r sylfaen dystiolaeth, llywio'r broses gyflawni, a chynyddu gwelededd a goruchwyliaeth mewn perthynas â chynlluniau buddsoddi.

Gwnaeth yr aelodau y sylwadau canlynol ynghylch y rheolau.

Mae'n rhaid sicrhau eglurder o ran swyddogaeth rheolau ar gyfer y dyfodol, yn benodol, ai'r swyddogaeth yw cynnig dull gweithredu cyson o ran darparu cyllid, yn hytrach na dewis cynigion ynghylch buddsoddi yn y dyfodol.

Roedd yr aelodau yn cytuno, lle bo'n bosibl, fod angen inni leihau nifer y rheolau a'u gwneud yn llai cymhleth, gan fabwysiadu dull gweithredu wrth symud ymlaen sy'n adlewyrchu'r arfer gorau, yn ogystal â dull gweithredu cymesur wrth ei roi ar waith.

Gofynnwyd cwestiwn penodol ynghylch a ddylid mabwysiadu'r Model Busnes Pum Achos yn ddull gweithredu safonol o ran arfarnu prosiectau. Roedd y grŵp o'r farn bod angen dull gweithredu cyson o ran sut y dylid ystyried cynigion ynghylch buddsoddi ac y gallai'r Model Busnes Pum Achos gynnig hyn. Dylem addasu'r broses yn ôl maint y cynnig.

Mae angen ystyried nodau ac amcanion y Cynllun Gweithredu Economaidd a dogfennau strategaeth perthnasol eraill i sicrhau bod ein 'rheolau' yn rhoi ystyriaeth i strategaethau eraill ar draws Llywodraeth Cymru a'n bod yn datblygu set unffurf o reolau.

Dylid defnyddio set gyffredin o reolau ynghylch disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb (themâu trawsbynciol) mewn perthynas â chynigion ym mhob rhanbarth. Mae'n rhaid darparu cymorth ar lefel ranbarthol i'w teilwra lle bo hynny'n briodol. Mae'n rhaid i unrhyw reolau a meini prawf cymhwysedd roi ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fodd bynnag, roedd yr aelodau yn teimlo ei bod yn bwysig bod y rheolau yn caniatáu ar gyfer gwahanol anghenion rhanbarthol, naill ai o ran y trefniadau cyflawni neu'r cynigion buddsoddi; gellid cyflawni hyn drwy addasu'r ffordd y defnyddir set o reolau neu greu rheolau rhanbarthol pwrpasol.

Hefyd, dywedodd yr aelodau ei bod yn allweddol ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y canlyniad(au) sydd i'w gyflawni/cyflawni a defnyddio'r man gorffen hwn i lywio'r broses o ddatblygu'r rheolau angenrheidiol. Teimlai'r aelodau na ddylai'r rheolau a roddir ar waith fod yn rhwystr i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer y rhanbarthau.

Mae angen canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau yng nghyfnod cynnar y broses ymgeisio er mwyn sicrhau na fydd prosiectau yn mynd drwy'r broses heb ddealltwriaeth gadarn o'r canlyniad disgwyliedig. Dylid sicrhau bod y prosiect yn gyson â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ei gyflawni, yn hytrach na chael ei ddal mewn ymarfer ticio blychau o ran y broses.

Wrth ystyried cymhwysedd prosiectau, roedd yr aelodau yn teimlo bod angen safbwynt ehangach o ran canolbwyntio ar y gwahaniaeth y bydd prosiect llwyddiannus yn ei wneud, yn hytrach nag ar faint o gyllid a geisir mewn perthynas â'r canlyniadau a geir.

Roedd hyn yn arwain at sicrhau eglurder ynghylch y dystiolaeth sydd ei hangen i sicrhau bod prosiectau yn llwyddo i gyflawni. Roedd yr aelodau o'r farn bod creu

gwahaniaeth rhwng y swyddogaethau monitro a gwerthuso yn hanfodol gan eu bod yn wahanol i'w gilydd, ond weithiau mae camddealltwriaeth rhwng yr hyn y mae monitro prosiect llwyddiannus yn ei olygu a gwerthuso canlyniad prosiect yn ehangach wedyn. Mae'n rhaid diffinio'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol disgwylidig yn glir er mwyn sicrhau bod modd mesur llwyddiant yn glir drwy gynnwys y dangosyddion priodol.

Roedd yr aelodau i gyd yn teimlo bod defnyddio costau symlach mewn perthynas â chyfrifo costau cymwys yn hanfodol i sicrhau y gellir ymdopi â'r baich gweinyddol o ran y broses hawlio a thalu. Dylid mabwysiadu'r egwyddor hon yn y dyfodol.

Yn olaf, cytunwyd yn unfrydol y bydd angen i unrhyw reolau yn y dyfodol gael eu deall gan gynulleidfa eang a'u hysgrifennu'n glir, gan ddefnyddio cyn lleied o acronymau â phosibl.

Offerynnau Ariannol

Bydd y grŵp yn trafod Offerynnau Ariannol yn fanwl ym mis Hydref.

Yn y cyfamser, rydym wedi ceisio barn y grŵp ynghylch a ddylem fod yn ceisio defnyddio cyllid buddsoddi rhanbarthol, cyhyd â phosibl, mewn ffordd sy'n sicrhau dull gweithredu etifeddol sy'n para am byth, fel y gellir ailgylchu cyllid ac ymestyn ei oes.

Roedd yr is-grŵp o'r farn y dylid defnyddio ystod eang o fecanweithiau cyllido wrth symud ymlaen, gan ddefnyddio'r cyfrwng cyllido mwyaf priodol a mwyaf addas i'r canlyniad disgwylidig a statws y sefydliad dan sylw.

Roedd yr aelodau hefyd yn teimlo, gan fod cyllid grant wedi'i ddefnyddio'n helaeth yn y gorffennol, y bydd yn bwysig, os byddwn yn cytuno y bydd dulliau cyllido eraill yn cael eu defnyddio, ein bod yn cyfathrebu'n glir â rhanddeiliaid ynghylch ein rhesymeg.

CRYNODEB O'R TRAFODAETHAU YN YR IS-GRŴP MONITRO A GWERTHUSO AR GYFER Y GRŴP LLYWIO ALLANOL

Mae'r is-grŵp monitro a gwerthuso wedi cyfarfod dair gwaith (15 Awst, 2 a 23 Medi), ac mae'r atodiad hwn yn crynhoi'r trafodaethau a gafwyd hyd yma, ynghyd â'r ffordd ymlaen a gytunwyd.

Cryfderau a gwendidau'r system monitro a gwerthuso bresennol

Roedd y grŵp yn cytuno bod llai o ddangosyddion yn y rhaglen gyllido ddiwethaf a bod hyn yn cyfyngu ar eu gwerth, yn enwedig gan fod cwrpas prosiectau yn dal i fod yr un peth. Hefyd, mae pryderon y gall dangosyddion ddylanwadu ar yr hyn a gewch. Roedd y grŵp o'r farn bod y lefel bresennol o gasglu data yn gryfder ond teimlwyd nad yw'r data yn cael ei ddefnyddio ddigon, ac mae galwadau am welliannau i unrhyw fodel cyllido yn y dyfodol o ran sicrhau bod data dienw ar gael i brosiectau a sefydliadau eraill ei ddadansoddi. Ymhlith y gwelliannau a awgrymwyd roedd datblygu achosion busnes, yn benodol y model rhesymeg a chynnwys meddwl arfarnol.

Nod y fframwaith monitro a gwerthuso

Cytunodd y grŵp ar y canlynol fel egwyddorion lefel uchel ar gyfer system monitro a gwerthuso yn y dyfodol:

- Sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei darparu ynghylch perfformiad y system fuddsoddi ranbarthol ar lefel genedlaethol, ar lefel ranbarthol ac ar lefel prosiectau.
- Sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu ac atebolrwydd.
- Annog defnydd o ddulliau gwerthuso o'r safon uchaf lle bynnag y bo'n bosibl.
- Annog defnydd o dystiolaeth a dadansoddi drwy gydol y cylch polisi.
- Bod yn gymesur.
- Ystyried ystod mor eang â phosibl o ganlyniadau o fewn cyfyngiadau adnoddau a dichonoldeb methodolegol.
- Sicrhau bod digon o allu mewn gwahanol rannau o'r system a chanfod ffyrdd o wneud y defnydd gorau o'r gallu sydd ar gael.
- Sicrhau bod yr holl bartïon yn deall eu cyfrifoldebau o ran monitro a gwerthuso, a deall sut y mae eu gweithgarwch yn cyfrannu at nodau cyffredinol y fframwaith monitro a gwerthuso.
- Bod yn seiliedig ar system cymorth ac arweiniad sy'n galluogi'r holl bartïon i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.
- Sicrhau bod canfyddiadau gwerthusiadau yn cael eu cyhoeddi'n amserol ac y gellir cael gafael arnynt yn hwylus.
- Lle bynnag y bo'n bosibl, defnyddio dangosyddion y gellir eu cymharu ar draws ardaloedd daearyddol.

Dosbarthu cyfrifoldebau

Roedd y grŵp yn teimlo, oherwydd nodweddion unigryw datblygu lleol dan arweiniad y gymuned, y byddai angen ei ystyried ar ei ben ei hun, a bydd y grŵp hwn yn gwneud hyn ar wahân.

Roedd y grŵp yn cytuno, pe bai cyllid yn cael ei ddatganoli i'r rhanbarthau, y dylai fod cyfrifoldebau cymysg o ran monitro a gwerthuso. Yn yr achos hwn, dylai Llywodraeth Cymru bennu'r strwythur cyffredinol a rhoi arweiniad mewn cydweithrediad â'r rhanbarthau/ardaloedd lleol. Dylai fod dangosyddion cenedlaethol a ddatblygir mewn cydweithrediad â phartneriaid, sy'n caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i'r prosiectau ddewis dangosyddion ychwanegol i helpu i ddangos gwerth eu gwaith. Roedd y grŵp yn cytuno y gellid defnyddio'r rhain mewn perthynas â nifer o brosiectau. Credwyd ei bod yn ddymunol bod gan dimau gwerthuso rhanbarthol neu dimau gwerthuso Llywodraeth Cymru ddigon o allu i roi'r cymorth a'r gefnogaeth angenrheidiol i brosiectau a gwneud penderfyniadau strategol ynghylch yr angen i werthuso prosiectau. Hefyd, mae cyfle i gael adolygiadau gan gymheiriaid a 'bydis' prosiectau er mwyn helpu i ledaenu arfer da. Teimlwyd, yn enwedig yn achos datblygu lleol dan arweiniad y gymuned, na ddylai'r broses fod mor feichus fel ei bod yn rhwystro grwpiau llai rhag cymryd rhan.

Gwerthuso ar lefel prosiectau

Roedd aelodau'r grŵp yn teimlo bod achos dros fuddsoddi mewn gallu gwerthuso ychwanegol, ar lefel ranbarthol neu ar lefel Llywodraeth Cymru (gan ddibynnu ar y strwythur), er mwyn darparu cymorth yn gynharach a mwy o gymorth i brosiectau ynghylch materion gwerthuso. Nodwyd, yn hanesyddol, fod prosiectau wedi amrywio o ran eu gallu i gynllunio a rheoli gwerthusiadau. Yn ei dro, mae tîm ymchwil, monitro a gwerthuso canolog Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi'i gyfyngu o ran faint o gymorth y gall ei roi i brosiectau. Awgrymwyd na fyddai hyn yn costio llawer iawn o gymharu â'r arian sy'n cael ei wario'n gyffredinol a'r buddion posibl a ddaw yn sgil gwell gwerthuso o ran dysgu a helpu i bennu'r cyfeiriad strategol. Cafwyd trafodaeth ynghylch sefydlu cymunedau dysgu a chymorth, gan gynnwys timau gwerthuso Llywodraeth Cymru a thimau gwerthuso rhanbarthol pan fyddant wedi'u sefydlu. Gellid rhoi'r cymorth hwn i brosiectau lle nad oes arbenigedd mewn gwerthuso, gan ganiatáu i brosiectau ganolbwyntio ar gyflawni. Roedd consensws bod angen inni ofyn pa wahaniaeth y mae'r prosiect wedi'i wneud yn gyffredinol. Roedd y grŵp o blaid bod yn fwy hyblyg o ran y gofynion gwerthuso, er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu o ran gwerthuso yn briodol ac yn gymesur â'r prosiect sy'n cael ei werthuso. Hefyd, mynegodd y grŵp bryderon ynghylch y ffaith nad oes cyflenwad enfawr o ymgynghorwyr gwerthuso yng Nghymru.

Systemau Monitro

Trafododd y grŵp bapur ar wahanol fathau o systemau monitro y gellid eu defnyddio mewn perthynas ag unrhyw ddull gweithredu o ran buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol. Roedd y grŵp yn cytuno bod angen bod yn gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oherwydd gallem geisio mesur llesiant a symud i ffwrdd oddi wrth gynnyrch domestig gros o bosibl; dywedwyd bod gan y rhaglen ddiwethaf ganlyniadau cadarnhaol a fyddai'n berthnasol. Teimlwyd bod angen inni ystyried y model rhesymeg dros yr ymyrraeth a bod angen i'r mathau o ddangosyddion fod yn addas i'r prosiectau. Trafododd y grŵp y ffaith, er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau, fod angen dangosyddion poblogaeth a fydd yn berthnasol i fwy nag un prosiect. Hefyd, bydd dangosyddion poblogaeth yn helpu i atgoffa pobl o bwrpas y cyllid. Trafododd y grŵp yr angen i feddwl am y tymor hwy ac roeddent yn teimlo y gellid cyflawni hyn drwy gysylltu data, yn enwedig gan nad oes gan brosiectau adnoddau ar gyfer hyn. Trafododd y grŵp dracio busnesau ac awgrymodd yr aelodau y dylai'r system newydd fod yn gallu cofnodi lle mae gan fusnesau nifer o ymyriadau. Mynegwyd pryderon ynghylch a fyddai hyn yn dileu arloesi ac yn golygu mai dim ond yr hyn a fesurwch a gewch.

Rôl arolygon buddiolwyr

Roedd y grŵp yn teimlo bod angen arolygon buddiolwyr o hyd ac y dylent gael eu cynnal ar lefel genedlaethol, oherwydd pryderon ynghylch gallu posibl ar lefel ranbarthol a lefel prosiectau. Teimlwyd hefyd y gellid grwpio rhai prosiectau gyda'i gilydd mewn arolygon. Mynegwyd pryderon ynghylch y gyfradd ddychwelyd a theimlwyd bod angen gwneud rhywfaint o waith gydag asiantaethau arolygon i sicrhau eu bod yn drylwyr. Nodwyd nad yw arolygon dros y ffôn bob amser yn sicrhau'r gyfradd ymateb a ddymunir ac y dylid ystyried dewisiadau eraill, megis apiau ffonau clyfar, i helpu i fynd i'r afael â hyn. Cytunodd y grŵp y dylid ymchwilio i gysylltu data a mynd ar drywydd hyn, ond nodwyd y cyfyngiadau o ran mynediad at ddata perthnasol, e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Dangosyddion ar Lefel Prosiectau

Defnyddiwyd cyfres o ddangosyddion themâu trawsbynciol yn enghraifft o sut y gellid llunio system ar gyfer y dyfodol a allai gynnwys dangosyddion craidd a chyfres ychwanegol o ddangosyddion y gallai prosiectau ddewis o'u plith. Roedd consensws cyffredinol bod angen inni sicrhau bod dysgu pellach yn deillio o hyn ond mae angen arweiniad clir fel bod gan bobl ddealltwriaeth gyffredin ac nad ydym yn cymharu pethau cwbl wahanol yn y pen draw. Trafodwyd hyn yn fwy cyffredinol ac roedd y grŵp yn teimlo bod angen prif ffrydio themâu trawsbynciol wrth symud ymlaen.

Symud ymlaen

Y cynllun ar gyfer yr ychydig gyfarfodydd nesaf yw bod y grŵp yn cael cyflwyniad ar nodau, dangosyddion a cherrig milltir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Hefyd, mae cynlluniau i drafod sut y gellid cynnwys dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau mewn fframwaith monitro a gwerthuso. Hefyd, bydd papur monitro a gwerthuso ar ddatblygu lleol dan arweiniad y gymuned ac, yn olaf, trafodir fformat yr ymgynghoriad o safbwynt monitro a gwerthuso.

DIWEDDARIAD IS-GRWP RHYNGWLADOL A THRAWSFFINIOL**Egwyddorion sy'n dod i'r amlwg**

Yn seiliedig ar y papur 'Cwestiynau cychwynol i'w trafod' a chyfarfod cyntaf yr is-grŵp mae'r egwyddorion canlynol (heb fod mewn trefn arbennig) wedi'u nodi. Gall y rhain newid wrth i drafodaethau fynd rhagddynt.

- Mae gweithio rhyngwladol a thrawsffiniol yn cynnwys Cymru'n cydweithredu o fewn y DU, ar lefel y DU, ar lefel Ewropeaidd ac yn fyd-eang.
- Gall gweithio rhyngwladol a thrawsffiniol gyflymu a hybu gweithgarwch ym mhob un o'r pedwar maes bras sydd â blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol.
- Dylai gweithio rhyngwladol a thrawsffiniol fod yn rhan annatod o unrhyw raglenni buddsoddi yn y dyfodol, yn hytrach nag ar wahân iddynt, gan adeiladu ar ddulliau megis y 'llwybr at ragoriaeth' a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Horizon 2020.
- Dylai'r dull gyd-fynd â'r fframwaith polisi (e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Strategaeth Ryngwladol, y Fframwaith Cenedlaethol) ond wrth roi'r dull ar waith dylid caniatáu ymyriadau a arweinir gan ganlyniadau ac egwyddorion yn hytrach na rhagnodi.
- Dylid cydnabod buddion hirdymor cefnogi gweithgarwch 'meithrin perthynas/dylanwadu/arferion gorau' yn ogystal â'r angen i gefnogi newid mewn diwylliant yn y ffordd y mae mudiadau Cymru'n gweithio'n rhyngwladol ac yn drawsffiniol.
- Dylai gweithgarwch adeiladu ar gyfleoedd sefydledig megis Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, Horizon 2020, Erasmus+ ac Ewrop Greadigol a chyfleoedd newydd neu gyfleoedd digyffwrdd pan fo cyfiawnhad dros hynny.

Trafodaeth bellach

Mae sawl maes sy'n cael eu cydnabod fel rhai pwysig ond sydd angen eu trafod ymhellach.

- Modelau gweithredu: mae'n ymddangos bod sbectrwm rhwng mecanweithiau i gefnogi gweithgarwch hyblyg, o'r gwaelod i fyny a rhaglenni trawsffiniol/amlochrog ffurfiol. Mae'n ymddangos bod rôl i egwyddorion strategol lywio pob buddsoddiad ar hyd y sbectrwm hwnnw.
- Materion cau allan wrth ddylunio: bydd integreiddio gweithio rhyngwladol a thrawsffiniol yn cyflymu ac yn hybu buddion buddsoddiadau rhanbarthol eraill ond mae perygl y gallai'r system gweithredu rhanbarthol a/neu lyfr rheolau greu rhwystrau anfwriadol i weithgarwch rhyngwladol a thrawsffiniol, e.e. gwledydd partner yn cael at systemau TG, gwariant 'y tu allan i ardal'.

- Cyllid: mae profiad yn awgrymu y bydd y dull ar gyfer gweithio rhyngwladol a thrawsffiniol, heb gyllid penodol, yn gyfyngedig a heb fod yn strategol, a bydd cyfleoedd sylweddol yn cael eu colli. Mae angen ystyried sut i ddarparu adnoddau ar gyfer y gweithgarwch hwn a'r dystiolaeth i gyfiawnhau'r adnoddau hynny.
- Canlyniadau: bydd gweithio rhyngwladol a thrawsffiniol yn cyflymu ac yn hybu gweithgarwch ym mhob un o'r pedwar maes bras sydd â blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol ond ni fydd y gweithgareddau penodol bob amser yn darparu buddion economaidd uniongyrchol, megis mwy o gyllid cystadleuol, neu byddant yn darparu buddion dros gyfnod hir. Wrth fonitro a gwerthuso unrhyw raglen yn y dyfodol bydd angen cydnabod a chefnogi hyn.